

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Trawsgwlad Ysgolion Cylch Aberystwyth** – mae croeso i holl ddisgyblion Blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6 gymryd rhan yn y trawsgwlad ar fore dydd Iau, Mai'r 4ydd (ail ddyddiad os fydd tywydd yn anffafriol – dydd Gwener, Mai 5ed). Mi fydd y ras gyntaf ar gyfer Bechgyn Blwyddyn 3 am 10 o'r gloch y bore gyda'r rasys nesaf pob 10 munud yn dilyn hynny. Mi fydd angen dillad ac esgidiau addas. Mi fyddwn yn dosbarthu crys chwaraeon yr ysgol i bawb fydd yn cynrychioli'r ysgol. Mae croeso i rieni / gwarcheidwaid ddod i gefnogi. Mi fydd pawb yn cwrdd ar Gaeau'r Ysgol Gymraeg.

**Sesiwn blasu Sboncen** – mi fydd disgyblion Bl 6 yn ymweld â Chanolfan Plascrug ar brynhawn ddydd Mawrth, Mai 3ydd er mwyn cymryd rhan mewn sesiwn blasu sboncen.

**Celf a Chrefft yr Urdd** – os ydych am gystadlu yn Adran Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd eleni yna gofynnir yn garedig i chi ddod ag unrhyw gynnyrch i'r ysgol (at Mrs Buddug Davies Blwyddyn 3) ar ddydd Gwener, Mai 5ed.

**Iechyd a Diogelwch** – cofiwch eli haul a digon o ddŵr ar gyfer tymor yr Haf. Mae croeso i ddisgyblion ddod ag eli haul gyda nhw i'r ysgol. Mi fydd y staff yn atgoffa disgyblion o'r angen i wisgo het haul ac i ddefnyddio eli haul cyn amseroedd egwyl neu wersi tu allan.

**Pêl-droed a Phêl-rwyd ysgolion cylch Aberystwyth** – mi fydd un tîm pêl-droed ac un tîm pêl-rwyd yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth hon ar ddydd Mercher, Mai 10fed. Mi fydd yr ysgol yn anelu at sicrhau ein bod yn gweithredu system cylchdroi eilyddion cyfartal er mwyn sicrhau digon o gyfle i bob disgybl chwarae ar y caeau / cyrtiau yn ystod y gystadleuaeth.

#### **TRAWS GWLAD URDD**

Mae'r gystadleuaeth Genedlaethol yn cael ei chynnal ar Fai 13eg, yn cychwyn am 2:30yp ar Gaeau Blaendolau. Gweler y manylion yn y ddolen isod, YNGHYD Â MANYLION COFRESTRU. Mae croeso i bawb sy'n aelod o'r Urdd i gymryd rhan. Cyfrifoldeb y rhieni yw cofrestru a hebrwng y plant ar y diwrnod. Bydd staff yr ysgol yno i gefnogi a chynorthwyo. Pob lwc i bawb!  
[Traws Gwlad Cenedlaethol | Urdd Gobaith Cymru](#)

[Trawsgwlad yr Urdd | Aberystwyth | Urdd Cross Country \(cognitofirms.com\)](#)

#### **Cynhelir Taith Gerdded Noddedig y Gymdeithas Rieni ac Athrawon ar nos Fawrth, Mai 16eg am 6 o'r gloch.**

Rydym am ddsbarthu ffurflen nodd i bob teulu yn ystod yr wythnos. Gobeithio y bydd modd i chwi gefnogi. Mae arian y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn allweddol ar gyfer cynorthwyo gyda chostau triapiau ac adnoddau dysgu ar gyfer pob blwyddyn addysgol.

**Y daith fydd:** Ysgol Gymraeg - Dros y bont ger y Clwb Rygbi - Croesi'r ffordd ger y groesfan - Dilyn y llwybr beicio heibio i Barc y Llyn ac o gwmpas caeau Blaendolau i'r Clwb Criced (Ile bydd dŵr ar gael) - yna dychwelyd i'r ysgol.  
Cynigir taith arall i blant ifanc sef ar hyd Coedlan Plascrug i'r gatiu ac yn ôl. Mi fydd ffrwythau ar gael yn yr ysgol ar ôl dychwelyd.  
RHAID I BOB PLENTYN FOD DAN OFALAETH OEDOLYN! Dim Beiciau os gwelwch yn dda.

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**

**R C Williams,  
Pennaeth,  
02/05/2023**



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

**Aberystwyth District School's Cross Country** - all Year 3, 4, 5 and 6 pupils are welcome to take part in the cross country on the morning of Thursday, May 4th (second date if weather is unfavourable - Friday, May 5th). The first race for Year 3 Boys will be at 10 o'clock in the morning with the next race every 10 minutes thereafter. Pupils will need suitable clothes and shoes. We will distribute the school sports shirt to everyone who will represent the school. Parents / guardians are welcome to come and support. Everyone will meet on the Ysgol Gymraeg School Field.

**Squash taster session** - Year 6 pupils will visit Plascrug Leisure Centre on the afternoon of Tuesday, May 3rd to take part in a squash taster session.

**Urdd Art and Craft** - if you want to compete in the Art and Craft section of the Urdd Eisteddfod this year then you are kindly asked to bring any material to school (to Mrs Buddug Davies Year 3) on Friday, May 5th.

**Health and Safety** – please remember sunscreen and plenty of water for the Summer term. Pupils are welcome to bring sunscreen with them to school. The staff will remind pupils of the need to wear a sun hat and to use sun cream before break times or outdoor lessons.

**Aberystwyth district Schools Football and Netball** - one football team and one Netball team will take part in this competition on Wednesday, May 10th. The school will aim to ensure that we operate a system of rotating substitutes equally in order to ensure enough opportunity for all pupils to play on the field / courts during the competition.

#### **Urdd Cross Country**

The National competition takes place on May 13th, starting at 2:30pm on Blaendolau Fields.

See the details in the link below, ALONG WITH REGISTRATION DETAILS. Everyone who is a member of the Urdd is welcome to participate.

It is the responsibility of the parents to register and escort the children on the day. The school staff will be there to support and assist. Good luck to everyone!

[Urdd Cross Country | Urdd Gobaith Cymru](#)

[Trawsgwlad yr Urdd | Aberystwyth | Urdd Cross Country \(cognitofirms.com\)](#)

**The P.T.A Sponsored Walk** will be held on Tuesday evening, May 16th at 6 o'clock.

We will distribute a sponsorship form to all families during the week. I hope you will be able to support. Funding from the Parents Teachers Association is key to assisting with the costs of trips and learning resources for each educational year.

**The journey will be:** Ysgol Gymraeg - Over the bridge near the Rugby Club - Cross the road near the crossing - Follow the cycle path past Parc y Llyn and around the Blaendolau fields to the Cricket Club (where water will be available) - then return to school. Another trip is offered for young children which is along Coedlan Plascrug to the gates and back. Fruit will be available at the school after returning. ALL CHILDREN MUST BE UNDER THE CARE OF AN ADULT! No bikes please.

***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**R C Williams, Headteacher**  
**02/05/2023**